Theatr Genedlaethol Cymru

Bwrdd Ymddiriedolwyr

Ry'n ni'n chwilio am aelodau newydd i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr...

Rhoi theatr Gymraeg wrth galon y genedl yw nod Theatr Genedlaethol Cymru. Ry'n ni'n chwilio am aelodau newydd i ymuno â'r Bwrdd er mwyn ein helpu ni i gyflawni'r weledigaeth hon a llywio'r cwmni drwy'r cyfnod nesaf.

Dyma gyfle gwerthfawr i gyfrannu at ddiwylliant Cymru, i fod yn rhan o fyd y celfyddydau, a mynychu digwyddiadau a pherfformiadau.

Mae'r cyfle hwn yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb yn y celfyddydau, sydd ag uchelgais, ac sy'n frwdfrydig. Yn ogystal, ry'n ni'n chwilio am rai Ymddiriedolwyr sydd ag arbenigedd neu brofiad yn y meysydd canlynol:

- Y gyfraith
- Theatr, fel ffurf artistig
- Gwaith ymgysylltu a gweithio'n agos gyda chymunedau
- Addysg
- Rheoli busnes

Mae croesawu amrywiaeth o bobl a chymunedau i'r cwmni yn hynod bwysig i ni. Felly, bydden ni'n arbennig o awyddus i dderbyn cais gan unrhyw un sy'n uniaethu gydag un neu ragor o'r grwpiau canlynol: pobl ifanc (dan 30 oed); pobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; a phobl anabl. Os ydych yn teimlo bod rhwystrau yn eich atal rhag mynegi diddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr, cysylltwch â ni i drafod er mwyn i ni geisio dileu'r rhwystrau hynny.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol, mae croeso i chi gysylltu â ni:

angharad.leefe@theatr.com
07903 842554

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 16 Tachwedd 2020, 5pm